# Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mercher, 21 Hydref 2015** |
| Amser: | **12.15** |

## Cofnodion: AC(4)2015(12)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Y Fonesig Rosemary Butler AC (Cadeirydd)**<br>**Peter Black AC**<br>**Angela Burns AC**<br>**Sandy Mewies AC**<br>**Rhodri Glyn Thomas AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Nicola Callow, Cyfarwyddwr Cyllid**<br>**Carys Evans, Pennaeth Cyswllt a Datblygiad Proffesiynol yr Aelodau** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd** |

## 1 Cyflwyniad

### 1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 1.2 Datgan Buddiannau

Ni chafodd unrhyw fuddiannau eu datgan.

1.3 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi.

## 2 Trosglwyddo i'r Pumed Cynulliad - croeso, ymsefydlu a datblygiad proffesiynol parhaus

Trafododd y Comisiwn bapur a oedd yn cynnwys cynigion ar gyfer trefniadau croesawu ac ymsefydlu'r Aelodau a'u staff yn dilyn etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2016.

Ystyriodd y Comisiynwyr hefyd argymhellion ar gyfer rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus i'r Aelodau a'u staff cymorth yn ystod y Pumed Cynulliad, yn dilyn adolygiad trylwyr o raglen DPP y Pedwerydd Cynulliad.

Roedd y rhain wedi'u seilio ar:

- y gwersi a ddysgwyd a'r sylwadau a gafwyd gan yr Aelodau ynghylch y trefniadau ar ôl etholiad 2011;
- casgliadau arolwg yr Aelodau a'u staff cymorth a gynhaliwyd yn 2015, a oedd yn cynnwys cwestiwn am droglwyddo i'r Pumed Cynulliad;
- trafodaethau â'r Aelodau (fel rhan o adolygiad DPP);
- profiad Aelodau Seneddol yn San Steffan yn ddiweddar;
- trafodaethau cychwynnol gyda'r grwpiau plaid; ac
- adborth gan fforwm y Cadeiryddion Pwyllgor a gynhaliwyd ar 24 Medi.

Cytunodd y Comisiynwyr y dylid defnyddio'r gwersi a ddysgwyd oddi wrth y trefniadau ymsefydlu a DPP yn ystod y Pedwerydd Cynulliad a'u bwydo i ddatblygiadau'r Pumed Cynulliad. Nododd y Comisiynwyr fod yr Aelodau a'u staff cymorth yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd DPP yn fawr, a bod hyn i'w weld yn yr arolygon bodlonrwydd. Cytunwyd y byddai cyfleoedd yn cael eu cynnig i'r Aelodau yn y dyfodol mewn ffordd sy'n cydnabod eu holl gyfrifoldebau amrywiol i sicrhau bod eu hamser yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol a chan sicrhau gwerth am arian.

## 3 Arolwg bodlonrwydd yr Aelodau

Ystyriodd y Comisiwn ganlyniadau pedwerydd arolwg blynyddol yr Aelodau a'u staff cymorth.

Ymatebodd 33 o Aelodau a 107 o staff cymorth i'r arolwg ac, o’i gymharu ag arolwg 2014, gwelwyd bod sgôr y rhan fwyaf o'r meysydd gwasanaeth wedi codi.

Roedd y Comisiynwyr yn cydnabod y bydd y sylwadau a gafwyd yn werthfawr wrth iddynt baratoi dull strategol o wella gwasanaethau ymhellach a chytunwyd y dylid rhannu canlyniadau'r arolwg gyda’r Aelodau a’u staff.

## 4 Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft 2016-17

Cafodd y Comisiwn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar gyllideb ddrafft y Comisiwn, a oedd wedi ei gyhoeddi.

Trafododd y Comisiynwyr brif argymhellion yr adroddiad a chytunwyd i dderbyn pob un ohonynt ac ymateb yn gadarnhaol i'r Pwyllgor Cyllid.

## 5 Unrhyw fater arall

Dywedodd y Llywydd ei bod wedi cael sylwadau’n holi am ymgynghoriad arfaethedig ynghylch sefydlu senedd ieuenctid.  O gofio'r ymateb cadarnhaol a gafwyd i’r rhaglen ymgysylltu â phobl ifanc, byddai’n rhaid i unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol gyd-fynd â’r rhaglen honno ac adeiladu ar y gwaith rhagorol a wnaed yn y cyswllt hwnnw.